OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1911 (Cy.154) (C.83)

# ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU A LLOEGR

## Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005

*Wedi'i wneud - - 12 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 73 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

(3) Mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at adrannau o'r Ddeddf ac Atodlenni iddi.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 20 Gorffennaf 2005**

**2.** Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym at bob diben ar 20 Gorffennaf 2005.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
12 Gorffennaf 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2004 p.23.
(**2**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 20 Gorffennaf 2005**

Is-adrannau (1) i (5) o adran 54(**3**).

Adran 54A(**4**).

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau hynny yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ("y Ddeddf") nad ydynt eisoes mewn grym i rym ar 20 Gorffennaf 2005 yng Nghymru a Lloegr.

Y darpariaethau yw is-adrannau (1) i (5) o adran 54, ac adran 54A o'r Ddeddf. Mae adrannau 54 a 54A ill dwy yn rheoleiddio datgelu gwybodaeth.

Mae adran 54 o'r Ddeddf yn gymwys i bersonau nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("Deddf 2000"), ac nad ydynt yn gweithredu ar eu rhan. Mae'n cyfyngu ar yr amgylchiadau pryd y caiff y personau hynny ddatgelu gwybodaeth benodol a geir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu archwilydd a benodir ganddo o dan adran 13 o'r Ddeddf ("archwilydd").

Yr wybodaeth dan sylw yw gwybodaeth a geir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu archwilydd, wrth arfer ei swyddogaethau o dan:

- Rhan 2 o'r Ddeddf;
- Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (swyddogaethau o ran y drefn gwerth gorau ar gyfer llywodraeth leol); neu
- adran 145C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988 (a fewnosodwyd gan adran 5 o'r Ddeddf) sy'n ymdrin ag astudiaethau sy'n ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.

Mae'r cyfyngiadau yn adran 54 yn gweithredu drwy waharddiad cyffredinol ar ddatgelu, yn ddarostyngedig i eithriadau eang iawn, a roddir yn is-adran (2). Datgelu at ddibenion unrhyw swyddogaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu archwilydd, o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yw un o'r eithriadau.

Os datgelir gwybodaeth heblaw o dan un o'r eithriadau yn is-adran (2), mae'n bosibl y bydd y person sy'n datgelu yn agored i gael ei garcharu am ddwy flynedd ac/neu ddirwy.

Mae adran 54A yn gymwys i bersonau sy'n awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Deddf 2000 neu'n gweithredu ar eu rhan. Caiff y personau hyn ddatgelu gwybodaeth y byddai adran 54 yn gwahardd personau eraill rhag ei datgelu. Yr unig amgylchiad pryd y mae'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf 2000, neu berson sy'n gweithredu ar ran awdurdod cyhoeddus o'r fath, ddatgelu'r wybodaeth honno yw pryd y byddai'r datgelu yn debygol o ragfarnu perfformiad effeithiol swyddogaeth statudol gan berson o'r fath.

---

(**3**) Diwygiwyd adran 54 gan Orchymyn Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Llacio'r Cyfyngiad ar Ddatgelu) 2005 (O.S. 2005/1018), sydd, o dan erthygl 1(2) ohono, yn dod i rym yn syth cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**4**) Mewnosodwyd adran 54A yn y Ddeddf gan Orchymyn Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Llacio'r Cyfyngiad ar Ddatgelu) 2005 (O.S. 2005/1018), sydd, o dan erthygl 1(2) ohono, yn dod i rym yn syth cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Os datgelir gwybodaeth gan dorri adran 54A bydd y person sy'n datgleu yn agored i ddirwy ond nid i garchar.

Diwygiwyd adran 54, a mewnosodwyd adran 54A yn y Ddeddf gan Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Llacio'r Cyfyngiad ar Ddatgelu) 2005 (O.S. 2005/1018). Daethpwyd ag is-adrannau (6) i (8) o adran 54 i rym ar 31 Ionawr 2005 i alluogi gwneud y Gorchymyn hwnnw.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn )

Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf wedi'u dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1-6 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 7 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adrannau 8-11 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 12 | 31 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Adrannau 13-15 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 16 | 31 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Adrannau 17-19 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Is-adrannau (1) i (3) o adran 20 | 31 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Is-adrannau (4) i (6) o adran 20 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Is-adrannau (1), (2) a (5) o adran 21 | 1 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Is-adrannau (3) a (4) o adran 21 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adrannau 22-38 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 39 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adrannau 40-49 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 50 ac Atodlen 1 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adrannau 51-53 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Is-adrannau (6) i (8) o adran 54 | 31 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Adrannau 55-65 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 58 | 31 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Adran 59 | 31 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Adran 66 ac Atodlen 2 (gydag arbedion) | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 67 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |
| Adran 68 ac Atodlen 3 | 31 Ionawr 2005 | 2005 Rhif 71 (Cy.9) (C.3) |
| Adrannau 69-70 | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 72 ac Atodlen 4 (gydag arbedion) | 1 Ebrill 2005 | 2005 Rhif 558 (Cy.48) (C.24) |